Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

DELFRYD. DYSG. CYMERIAD

Ysgol Dyffryn Nantlle

Pennaeth/ *Headteacher*
Mrs Alwen P Watkin B.A

Ffordd y Brenin
Pen-y-groes
Gwynedd LL54 6AA
Ffôn - 01286 880 345
Ffacs - 01286 881 953
E-bost - swyddfa@ydn.gwynedd.sch.uk
https://twitter.com/ydnantlle
http://ysgoldyffrynnantlle.org/

Cadeirydd y Llywodraethwyr 2019/20 Chair of Governors
Mr John Pollard / Ms Angharad Roberts
Cadeirydd y Llywodraethwyr 2020/21 Chair of Governors
Mrs Sara Lloyd Evans

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2019/2020

Annwyl Rieni,

Dyma gopi o Adroddiad Blynyddol Llawn y Llywodraethwyr i Rieni am y flwyddyn ysgol 2019-20. Mae copi Cymraeg a Saesneg ar gael ar safwe'r ysgol: www.ysgoldyffrynnantlle.org

Mae hawl gan rieni i alw cyfarfod i drafod yr adroddiad. Cysylltwch gyda mi yn yr ysgol os ydych yn dymuno gwneud hynny. Ni chynhelir y cyfarfod os oes llai na 10% o rieni (neu 30 rhiant pa un bynnag sydd leiaf) yn gwneud cais.

Yn gywir,

Elen Williams
Clerc y Llywodraethwyr

Ni chynhaliwyd cyfarfod blynyddol rhieni gyda'r llywodraethwyr yn 2019-20.

Os hoffech gael copi Saesneg o'r Adroddiad Blynyddol cysylltwch â'r ysgol.
If you would like an English copy of the Governors' Annual Report please contact the school.

ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r Ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Pennaeth a'r Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/20.

AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHOL AM 2019/20

Cadeirydd y Corff: **Mr John Pollard / Ms Angharad Roberts**
Is-gadeirydd y Corff: **Mr Raymond Williams**
Clerc y Corff: **Ms Elen Williams**

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy'r Ysgol:
Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6AA. 01286 880345

Cynrychiolaeth:	Enw:	Hyd at:
Pennaeth	Mrs Alwen Pennant Watkin	
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Sara Lloyd Evans	31.12.2023
	Mr Raymond Williams	31.08.2022
	Mr Stephen Barnard	31.08.2022
	Mrs Sian Jones	31.08.2023
	Mr Ali Imanpour	31.08.2023
Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg	Cyng. Judith Humphreys	31.08.2021
	Mrs Iona Wyn Jones	31.08.2023
	Cyng. Craig ab Iago	31.08.2023
	Ms Angharad Roberts	31.08.2022
Cynrychiolwyr Athrawon	Miss Clare McDermott	31.08.2020
	Mr Deiniol Tudur Davies	31.08.2020
Cynrychiolwyr Staff Ategol	Ms Catherine Williams	31.08.2024
Cynrychiolwyr Cymunedol	Mr Glyn Owen M.B.E.	31.08.2020
	Mr John Pollard	31.08.2021
	Mr Alun Ffred Jones	31.12.2023
	Mr John Pritchard	31.08.2021

Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer cynrychiolwyr y rhieni ym Medi 2022.

YR YSGOL

DATGANIAD O GENHADAETH

"Sicrhau addysg o'r ansawdd gorau posibl i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle, yn unol â'u hoedran, gallu a thueddfryd, er mwyn iddynt dyfu'n bersonoliaethau llawn, datblygu ac ymarfer eu holl ddoniau, a'u cymhwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog ac Ewropeaidd."

ARWYDDAIR YR YSGOL

Dymunwn gefnogi'r uchod trwy gyfeirio at arwyddair yr ysgol, '**DELFRYD DYSG CYMERIAD'**, sy'n rhoi'r pwyslais ar fagu a meithrin cymeriad a phersonoliaeth. Ystyriwn hyn yn ganolog i waith a chenhadaeth yr ysgol.

NIFEROEDD DISGYBLION YR YSGOL 2019/20

Ym Medi 2019, roedd 419 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol.
Dechreuodd 83 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 ym Medi 2019 ac roedd 58 o ddisgyblion yn y Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12/13).

PRESENOLDEB O OED YSGOL ORFODOL 2019/20

COVID-19 – data heb ei gasglu gan yr Awdurdod

CATEGORI IAITH

Ci yw Categori Iaith yr ysgol, sef ysgol ddwyieithog.

POLISI IAITH

Nòd yr ysgol yw hyrwyddo i'r graddau mwyaf posibl, ddatblygiad dwyieithog pob disgybl. Mae yn y polisi bwyslais ar integreiddio'r dysgwyr Cymraeg i gymdeithas Gymreig yr ysgol gynted ag y bo modd.

Anelir at sefyllfa lle y gall pob disgybl drafod y gwahanol bynciau mewn dwy iaith, a hyn yn ei dro yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plentyn o'r pynciau eu hunain.

CYMRAEG FEL PWNC

Disgwylir i bob disgybl astudio Cymraeg hyd at ddiwedd blwyddyn 11, a sefyll yr arholiad priodol, iaith gyntaf neu ail iaith ar derfyn y cwrs.

IAITH CYFATHREBU

Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu yn yr ysgol, a chynhelir gwasanaethau boreol a gweithgareddau'r ysgol yn bennaf yn y Gymraeg.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Mae nifer a lleoliadau'r cyfleusterau ar gyfer y bechgyn a'r genethod ar wahân. Mae cyflwr a glendid y cyfleusterau yn cael ei fonitro a'u gweithredu yn ddyddiol.

GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol gan y Pennaeth. Yn flynyddol cyhoeddir llawlyfr gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Gellir cael copi o swyddfa'r ysgol.

CWRICWLWM

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol o ran y pynciau statudol, y gofynion statudol eraill a'r elfennau anstatudol. Trefnir cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion gydag anawsterau dysgu, a hefyd i blant sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt.

DYDDIADAU TYMHORAU BLWYDDYN YSGOL 2020/21

Hydref 2020	*1 Medi 2020 – 18 Rhagfyr 2020*
Gwanwyn 2021	*4 Ionawr 2021 – 26 Mawrth 2021*
Haf 2021	*12 Ebrill 2021 – 20 Gorffennaf 2021*

Gwyliau:

Hanner tymor yr Hydref	*26 - 30 Hydref 2020*
Gwyliau'r Nadolig	*21 Rhagfyr 2020 – 1 Ionawr 2021*
Hanner tymor y Gwanwyn	*15 – 19 Chwefror 2021*
Gwyliau'r Pasg	*29 Mawrth – 9 Ebrill 2021*
Calan Mai	*3 Mai 2021*
Hanner tymor yr Haf	*31 Mai - 04 Mehefin 2021*
Gwyliau'r Haf	*21 Gorffennaf – 31 Awst 2021*

YSGOL IACH

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Gwyddoniaeth ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach wedi cyrraedd Cam 3 Ysgolion Iach Gwynedd ac yn gweithio i gwblhau Cam 4. Miss Georgia Jones sy'n cydlynu'r gwaith Cynllun Ysgolion Iach yn yr Ysgol.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr sydd yn manylu ar y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cawn yr wybodaeth am anghenion disgyblion Blwyddyn 7 o'r ysgolion cynradd. Rydym yn awyddus i feithrin perthynas dda gyda rhieni disgyblion ADY.

Mae gennym ddarpariaeth lawn er mwyn cefnogi anghenion addysgu ein disgyblion. Bydd pob disgybl ADY yn cael ei fentora gan aelod o'r staff. Rhydd hyn gyfle i'r disgyblion rannu eu llwyddiannau a'u pryderon a thrafod eu cynnydd wrth ymgyrraedd at dargedau penodol. Cynhelir gweithgareddau dyddiol cefnogol - yn cynnwys, Cymhorthfa, Darllen ar y Cyd, Sesiynau Gwella Rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth gynhaliol.

Mae croeso i chi gysylltu â'r Cydlynydd ADY er mwyn trafod unrhyw agwedd o waith ADY yr ysgol.

AROLWG ESTYN

Ers Ionawr 2015, mae tîm o arolygwyr Estyn wedi ymweld yn dymhorol i fonitro'r cynnydd a waned ers yr Arolwg Craidd.

Yn ystod Hydref 2016, bu i dîm o arolygwyr o dan arweiniad Delyth Gray, Arolygydd Cofnodol ymweld â'r Ysgol i fonitro'r cynnydd ers Gorffennaf .
Barnwyd bod yr Ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad Adran 28 a phenderfynwyd tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

CYFARFODYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Wrth gyflawni eu dyletswydd cyfarfu'r Corff Llywodraethol fel a ganlyn yn ystod 2019/20:

6:00yh – Nos Fawrth – 01 Hydref 2019 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Ethol Swyddogion am y flwyddyn academaidd i ddod
- Enwebu / Cyfethol Aelod Cymunedol
- Penodi Llywodraethwyr Dynodedig / Pwyllgorau Statudol / Is-bwyllgorau
- Buddiannau
- Hyfforddiant
- Taflenni Cofrestr Troseddau
- Cadarnhau a Mabwysiadu Còd Ymddygiad i'r Llywodraethwyr
- Cofnodion / Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Dyddiadau am weddill y flwyddyn

4:30yh – Nos Fawrth – 05 Tachwedd 2019 – Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion

5:30yh – Nos Iau – 12 Rhagfyr 2019 – Is-bwyllgor Cyllid

- Gwobrwyon o Gronfeydd yr Ysgol 2019
- Cronfa Ysgol 2018/2019
- Cyllideb 19/20 / Rhagolygon Cyllidol 3 blynedd

6:00yh – Nos Fawrth – 14 Ionawr 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Adroddiad Aelodau'r Cyngor Ysgol
- Cofnodion/ Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Rhagolygon Cyllidol / Gormodedd
- Canlyniadau Haf 2019
- Adroddiad ar ddigwyddiadau yn ystod wythnos gyntaf y tymor newydd
- Absenoldebau athrawon Tymor yr Hydref 2019 / gwybodaeth staff cyflenwi
- Cadarnhau Aelodaeth yr Is-baneli / Cyswllt Llywodraethwr Adrannau
- Dirprwyo Pwerau Cyllidol a phleidleisio i'r Pennaeth
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth 2020-23 - ymgynghori
- Hyfforddiant Llywodraethwyr – adrodd yn ôl
- Gosodiadau
- Adroddiad y Pennaeth
- Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

6:00yh – Nos Lun – 27 Ionawr 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Cyfarfod Arbennig

Nos Lun – 03 Chwefror 2020 – Is-grwp Monitro Ansawdd

2:00yh – Nos Iau – 13 Chwefror 2020 – Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion

Nos Fawrth – 03 Mawrth 2020 – Is-grwp Monitro Ansawdd

6:00yh – Nos Mercher – 04 Mawrth 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Cyfarfod Arbennig

4:30yh – Nos Fawrth – 10 Mawrth 2020 – Is-bwyllgor Staffio

- Absenoldeb Staff
- Trosiant Staff
- Hysbysebu Swydd Technoleg a Gwyddoniaeth
- Hysbysebu Swydd fewnol: Cydlynydd ADY / Cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer bod yn aelod o'r UDRh
- Swydd Technegydd TGCh
- Cesiadau gan aelodau staff i gwtogi oriau (x3)

6:00yh – Nos Fawrth – 10 Mawrth 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Adroddiad Cyngor Ysgol
- Cofnodion/Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Adrodd yn ôl – Cyfarfodydd Cyswllt Llywodraethwyr
- Polisiau
- Cyfathrebu ag ysgolion cynradd a rhieni
- Llythyr Cyngor Cymuned Llanllyfni
- Ffair Hyfforddiant a phrofiad
- Tabl Sgiliau a phrofiad
- Holiaduron disgyblion a rhieni – adrodd yn ô
- Ceisiadau Gwybodaeth gan yr Heddlu
- Adroddiad y Pennaeth

6:00yh – Nos Lun – 16 Mawrth 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Cyfarfod Arbennig

6:00yh – Nos Iau – 30 Ebrill 2020 – Is-bwyllgor Staffio, Penodi a Lles

- Cofnodion cyfarfod / Materion yn codi
- Materion Staffio
- Absenoldebau Staff
- Trosiant – Cyfweliadau ymadael
- Rhaglen Waith ddrafft

6:00yh – Nos Iau – 21 Mai 2020 – Is-bwyllgor Staffio, Penodi a Lles

- Cofnodion cyfarfod / Materion yn codi
- Absenoldebau Staff
- Trosiant – Cyfweliadau ymadael
- Rhaglen Waith ddrafft

6:00yh – Nos Fawrth – 02 Mehefin 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Cofnodion / Materion yn codi
- Diweddariad ar weithgareddau YDN yn sgil sefyllfa Covid-19
- Diweddariad ar Gynllun Busnes YDN
- Diweddariad o gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Staffio, Penodi a Lles
- Trosiant – Cyfweliadau Ymadael
- Sefydlu Is-bwyllgor (adnewyddu/paentio'r Ysgol ayyb)
- Diweddariad ar Hyfforddiant Pivotal, cyrsiau ar-lein
- Data holiaduron rhieni a disgyblion
- Hyrwyddo'r Ysgol
- Aelodaeth Urdd

6:00yh – Nos Fawrth – 16 Mehefin 2020 – Is-bwyllgor Staffio, Penodi a Lles

- Cyflwyniad am y Grwp Lles Staff
- Swydd Cydlynydd Cymhwysedd Digidol
- Rhaglen Waith

6:00yh – Nos Iau – 25 Mehefin 2019 – Is-bwyllgor Cyllid

- Cyfrifon Terfynol 2019/20
- Arlwyaeth 2019/20
- Cyllideb 2020/21

6:00yh – Nos Fawrth – 07 Gorffennaf 2020 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Cyflwyniad am y Grwp Lles Staff
- Cofnodion/ Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Cyllideb 20/21
- Addysg Cyfunol
- Polisiau
- Cyfarfodydd Cyswllt Llywodraethwyr
- Adolygu gwaharddiadau disgyblion yn ystod y flwyddyn

DIGWYDDIADAU A CHYSYLLTIADAU A'R GYMUNED

Rhestrir isod rai o'r prif weithgareddau

GWEITHGAREDDAU TYMOR YR HYDREF 2019

- Cwmni'r Fran Wen yn cynnal prosiect 'Fi di Fi' gyda Bl.8
- Taith i Chill Factore ar gyfer y criw oedd yn mynd ar y daith Sgio i Awstria
- Prosiect PELO Prifysgol Bangor i griw ym Ml.7
- Sesiynau Technocamps i Fl.9
- Sesiwn Robotics gyda Bl.7 gan Engineering Education Scheme Wales
- Sesiynau SEREN i'r disgyblion mwyaf galluog yr Ysgol
- Prifysgol Bangor wedi rhoi cyflwyniad i Fl.9 ar gyfer y rhaglen TOP – rhaglen ar gyfer Ehangu Mynediad i Addysg Bellach / Prifysgol
- Criw o ddisgyblion Bl.9 a 10 yn cymryd rhan mewn wythnos o weithgareddau rhaglen Phoenix – cael ei redeg gan y Gwasanaeth Tan
- 2 o ddisgyblion yr Ysgol yn cynnal cyngerdd i Ferched y Wawr
- Gweithgareddau chwaraeon – 5x60 badminton, Pel-rwyd a nifer o gystadleuaethu wedi eu trefnu fel caiaio, athletau, dringo ayyb
- Noson agored i ddisgyblion Bl.6
- Dyffryn Disglair – disgyblion Bl. 5 a 6 y dalgylch wedi mynychu gweithgareddau amrywiol dros 2 ddiwnrod yn yr Ysgol fel diwrnodau pontio
- Ymweliad gan y Prifardd Hywel Griffiths
- Cyflwyniad gan Peredur Lynch a Catrin Heledd ar fanteision astudio'r Gymraeg
- Diwrnod di-wisg i gasglu arian i Ysbyty Walton
- Disgyblion Bl.7 wedi bod yn gweld sioe 'Arwyr' gyda chyfraniad ariannol gan Gyngor y Celfyddydau
- Bl.10 ac 11 wedi cael mynediad at app GCSE Pod gydag adnoddau adolygu ar gyfer rhan helaeth o bynciau TGAU
- Rhaglen mentora PIXI o'r enw "Level Best" gyda nifer o ddisgyblion Bl.11 er mwyn ceisio codi cymhelliant y disgyblion
- Taith i amgueddfa Titanic, Lerpwl i Fl.9
- Bl.11 wedi cael diwrnod Sgiliau Cymru yn Venue Cymru, diwrnod gyda chyflogwyr a drefnwyd drwy Gyrfa Cymru
- Webinar i ddisgyblion Bl.11 sy'n astudio Adeiladwaith i hybu swyddi yn y sector adeiladu
- Noson agored i ddisgyblion y 6ed gydag Anna Williams o Brifysgol Bangor i drafod gwneud ceisiadau UCAS gyda'r disgyblion a'u rhieni
- Cyflwyniad gan Elliw o'r Coleg Cambria ar bwrsariau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cyflwyniad gan Phil Lynes o Student Finance Wales i drafod cyllid gyda'r 6ed dosbarth
- Cyflwyniad gan Fantell Gwynedd ar wirfoddoli – ar gyfer BAC i ddisgyblion y 6ed dosbarth
- Dwy o Fl.12 wedi bod ar ddiwrnod agored ar gyfer Meddygaeth i Brifysgol Bangor
- Disgybl o Fl.13 wedi treulio Ysgol Haf yn Brifysgol Rhydychen
- Fel rhan o waith gwirfoddoli ar gyfer gwaith BAC, sefydlwyd nifer o glybiau gan ddisgyblion y 6ed, gan gynnwys Clwb Hybu'r Gymraeg, a chlwb Gwyddoniaeth i ddisgyblion Bl.7 ac 8.

GWEITHGAREDDAU TYMOR Y GWANWYN 2020

- Trip sgio i Awstria
- Prosiect PELO Prifysgol Bangor
- Cynhaliwyd sesiwn sgiliau adolygu i Fl.11 gan gwmni Positively Mad
- Cyflwyniad i Fl.11 i werthu manteision dod yn ôl i'r 6ed dosbarth
- Cynhaliwd Ffair Bynciau i Fl.11 gydag aelodau y 6ed dosbarth i drafod opsiynau
- Disgyblion SEREN wedi mynychu sesiynau MATh yn ystod y tymor
- PC Dewi Owen wedi bod yn gwneud cyflwyniadaui Fl.8
- Cysigyblion Cymraeg set 1 wedi nod i'r Galeri i wylio Llyfr Glas Nebo
- Gweithdy Syniadau Mawr i Fl.13 gan Shoned Owen ar gyfer cynorthwyo gyda'r Her Menter
- Disgyblion CA3 yn gwneud Profion Cenedlaethol ffug
- Eisteddfod yr Urdd y dalgylch 28/29 Chwefror

GWEITHGAREDDAU TYMOR YR HAF 2020

Covid-19

CLYBIAU A CHYMDEITHASAU

Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion. Dyma rhai enghreifftiau o'r clybiau ac ymarferion sydd yn cael ei gynnig: Pêl-droed, Pêl-rwyd, Rygbi, Hoci, Gymnasteg, Badminton, Athletau. Rydym yn annod bob disgybl i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol er mwyn datblygu eu sgiliau ymhellach ac er lles ei iechyd.

Yn ogystal â'r ymarferion mae'r Ysgol wedi trefnu ymweliadau a theithiau yn flynyddol er mwyn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau newydd i'r disgyblion. Dyma rhai enghreifftiau: Taith Sgïo i Awstria, Gwylio gemau Pêl-droed proffesiynol yn Lloegr, Gemau proffesiynol Pêl-rwyd, Gemau rygbi yng Nghaerdydd.

Yn ychwanegol mae'r Ysgol yn cynnig Clwb Gwaith Cartref a gweithgareddau'r Urdd. Anogir pob disgybl i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma.

CHWARAEON

Mae Addysg Gorfforol o safbwynt iechyd, ffitrwydd a hamdden ein disgyblion, yn bwysig iawn yng nghwricwlwm yr ysgol a chynigir llawer iawn o brofiadau gwahanol. Mae'r pwyslais ar lwyddiant yr unigolyn a gwaith tîm a'r cyfleoedd allgyrsiol, yn sylweddol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd nifer o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored mewn ysgolion neu leoliadau eraill.

EISTEDDFOD

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar 19eg o Ragfyr, 2020. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn eto eleni. Roedd y Neuadd dan ei sang yn ystod y bore, y prynhawn a'r hwyr. Diolch i bawb a weithiodd mor galed er mwyn sicrhau'r llwyddiant hwn eleni. Diolch yn arbennig i aelodau'r chweched dosbarth am eu gwaith dygn ac i'r beirniaid hwythau am eu gwaith trylwyr sef Mr Carwyn Eckley - Llen a Llefaru a Miss Angharad Wyn Jones - Cerddoriaeth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ddiflino yn flynyddol yn ddisgyblion, yn athrawon, yn rhieni a thrigolion Dyffryn Nantlle.

ENILLWYR Y TLYSAU/ TARIANNAU 2019

- CWPAN DRAMA ERYRI I'W CHYFLWYNO I'R SGETS FUDDUGOL: LLYFNWY
- TLWS NIA, ANGHARAD, SHARON, NIA, DERFEL A RICHARD 1996 I'W GYFLWYNO I'R DDEIALOG/ YMGOM ORAU: LLYFNWY
- TLWS KAREN OWEN AC ARWYN EVANS I'W GYFLWYNO I ENILLYDD Y GYSTADLEUAETH SIARAD CYHOEDDUS: LLEUCU NON, LLYFNWY
- TLWS CRIW DULYN I'W GYFLWYNO I'R MEIM MWYAF GWREIDDIOL: DULYN
- TLWS Y PARCH. TEGID ROBERTS I'W GYFLWYNO I'R CYSTADLEUYDD UCHAF EI FARCIAU O DŶ DULYN: ERIN FFLUR, DULYN
- CWPAN ERFYL FYCHAN I'W GYFLWYNO I'R CYSTADLEUYDD MWYAF ADDAWOL YN YR ADRAN LEFARU: ELIN JEN, DULYN
- CWPAN EVELYN AC ARWYN MORGAN I'W GYFLWYNO I'R CANWR/CANTORES MWYAF ADDAWOL YN YR ADRAN GERDD: CARADOG JONES, LLIFON
- CWPAN ANGHARAD WYN I'W GYFLWYNO I'R OFFERYNNYDD MWYAF ADDAWOL: CARADOG JONES, LLIFON
- TLWS ER COF AM NOEL ROBERTS I'R UNIGOLYN GORAU O FEWN MEIM: KIAN GLINDON, DULYN
- CWPAN HYWEL ROBERTS I'W CHYFLWYNO I'R CÔR BUDDUGOL: LLIFON
- ENILLWYR TLYSAU ADRAN Y GYMRAEG: LLEUCU NON, LLYFNWY. ELAN MAIR WILLIAMS, SILYN
- Y RHUBAN GLAS OFFERYNNOL YN RHODDEDIG GAN DEULU Y FONES ILID ANN JONES: LLEUCU NON, LLYFNWY
- TARIAN YR EISTEDDFOD I'R TŶ BUDDUGOL: LLYFNWY

YSGOL DYFFRYN NANTLLE

2019/2020

CYLLIDEB / *BUDGET*

GWEITHWYR / *STAFF*		
Athrawon / *Teachers*	£1,453,942	
Staff Ategol Misol / *Monthly Administrative Staff*	£165,643	
Uwch Gymorthyddion/ Cymorthyddion ADY / *SEN Assistant / Higher Level Assistant*	£173,806	
Uwch Oruchwylwyr / *Senior Supervisors*	£7,581	
Swyddog Rygbi / *Rugby Hub Officer*	£2,747	
Arolygwyr Arholiadau / *Examinations Invigilators*	£7,000	
Cynllun Absenoldebau Ysgolion / *Schools Absence Scheme*	£0	
Llanw / *Supply*	£73,000	
Recriwtio / *Recruit*	£500	**£1,884,219**
ADEILADAU / *BUILDINGS*		
Cynnal a Chadw / *Repairs and Maintenance*	£19,104	
Dodrefn / *Furniture*	£2,000	
Cynllun Rheoli Carbon / *Carbon Management Plan*	£7,805	
Offer Ymladd Tân / *Fire Fighting Equipment*	£1,000	
Contract Glanhau / *Cleaning Contract*	£51,530	
Trethi / *Rates*	£48,380	
Trydan / *Electricity*	£19,000	
Nwy / *Gas*	£11,500	
Dwr / *Water*	£2,500	**£162,819**
CLUDIANT / *TRANSPORT*		
Lwfansau Ceir / *Car allowance*	£1,500	
Cludiant Disgyblion / *Pupil Transportation*	£25,000	
Buddsoddi Bws Mini / *Invest in Minibus*	£10,000	
Bysiau / *Buses*	£3,000	**£39,500**
LWFANS Y PEN / *CAPITATION*	£78,068	**£78,068**
GWASANAETHAU / *SERVICES*		
Arholiadau / *Examinations*	£56,500	
Post / *Post*	£2,300	
Ffôn / *Telephone*	£1,500	
Canolfan Hamdden / *Leisure Centre*	£14,000	
Cynllun Gofal Plant / *Childcare Scheme*	£450	

Gwersi Offerynnau Cerdd / *Music Instrument Lessons*	£5,000	
Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion / Schools' Network Service	£5,989	
Cytundeb Llyfrgell/ *Library Contract*	£541	
CYNNAL - Cyfanswm/Total: Cytundeb Technoleg / *Technology Contract*	£23,345	
Profion Trydannol / *Electrical Testing*	£1,800	
Cynnal Tiroedd / *Ground Maintenance*	£9,140	
Gwasanaeth Arlwyo / *Catering Service*	£40,251	
Profiad Gwaith / *Work Experience*	£1,400	
Cyrsiau allanol 6ed /	£18,000	
Cytundebau Rheoli Banc ayb, Cyngor Ariannol, Cyflogau a Phersonél/ *Bank Control etc, Financial Advice, Salary and Personnel Contracts*	£5,457	
Consortiwm Ol-16 */ Consortium 16+*	£800	
Pecyn 25	£10,498	**£196,971**
ARIAN WRTH GEFN / *RESERVES*		**£0**
CYFANSWM GWARIANT / *TOTAL EXPENDITURE*		**£2,361,557**
INCWM / *INCOME*		
Gosodiadau / *Lettings*	-£7,000	
Tanwariant 2018/2019 / *Underspent 2018/2019*	-£36,025	
Grant Gwella Addysg/ *Education Improvement Grant*	-£20,341	
Grant Datblygu Disgyblion / *Pupils Development Grant*	-£55,200	
Grant Rhwydwaith 14-19 / *14-19 Network Grant*	-£3,385	
Grant Dysgu Proffesiynol / *Professional Learning Grant*	-£16,715	
Grant Tal Athrawon / *Teachers' Pay Grant*	-7,834	
Grant Pensiwn Athrawon – Medi 2019 / *September 2019 – Teachers' Pension Grant*	-40,439	
CYFANSWM INCWM / TOTAL INCOME		-£186,939
CYFANSWM GWARIANT NET / *NET EXPENDITURE TOTAL*		**£2,174,638**
CYFANSWM DYRANIAD / *TOTAL ALLOCATION*		**£2,137,683**
DIFFYG / *DEFICIT*		**£36,955**